# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yn**

**Ninas a Sir Abertawe**
**Canolfan Ddinesig**
**Heol Ystumllwynarth**
**Abertawe**
**SA1 3SN**

**Mehefin 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/09/2013**

## Cyd-destun

Mae Dinas a Sir Abertawe yn ne orllewin Cymru. Mae'n ffinio â Chastell-nedd Port Talbot yn y dwyrain a Sir Gaerfyrddin yn y gorllewin. Cyfanswm y boblogaeth yw 238,691.

Yn Abertawe, dywed 11.4% o bobl dros dair oed eu bod yn medru'r Gymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19%.

Y gyfradd cyflogaeth yn Abertawe yw 63.7% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 67.3% (yn y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2012). Mae 24.4% o blant yn byw mewn cartrefi di-waith.

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 21%, sy'n uwch na'r ffigur cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef 19.3%. Y lefel hon o gymhwyster yw'r 16eg uchaf yng Nghymru, lle mae'r ffigur isaf o ran prydau ysgol am ddim yn gyntaf a'r 22ain yw'r uchaf (CYBLD 2012)[1]. O'r 147 o ardaloedd yn Abertawe, mae 12% bellach yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALlC 2011).

Ar 31 Mawrth 2012, roedd 555 o blant yn cael gofal gan yr awdurdod lleol yn Abertawe. Roedd 225 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 6.3% o'r boblogaeth, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 4.2% (yn y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2012).

### Cyd-destun Ariannol

Asesiad Gwariant Safonol Llywodraeth Cymru (AGS) i bob pen o'r boblogaeth ar gyfer Cyngor Abertawe yn 2012-2013 yw £1,614 y pen, sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef £1,681. Gosodwyd cyllideb refeniw net o £387.7miliwn (ac eithrio grantiau penodol), sydd 0.7 % yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol o gymharu â chynnydd cyfartalog ledled Cymru o 1.2%.

Gosododd y cyngor ei gyllideb refeniw net cyffredinol ar 100.5% o'r AGS ar gyfartaledd Cymru a gosododd y gyllideb addysg net ar lefel o 96.5% o'i Asesiad yn Seiliedig ar Ddangosydd (ASDd), sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef 98.7%. Dylid nodi nad targed gwariant yw'r ASDd, ond mecanwaith ar gyfer pennu dyraniad cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau unigol. Y gyllideb addysg net fesul disgybl yw £4,595 o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef £4,813.

Y gyllideb a ddirprwyir i ysgolion cynradd, gan gynnwys grantiau penodol yw £3,944 fesul disgybl (sy'n is na'r cyfartaledd sef £4,114 ar gyfer Cymru). Y gyllideb a ddirprwyir i ysgolion uwchradd yw £4,799 y disgybl (sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef £4,589). Y gyfradd dirprwyo gyffredinol ar gyfer 2012-2013 oedd 82.5% o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef 81%.

[1] Y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl (CYBLD) yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio casgliadau statudol gwybodaeth am ysgolion a manylion am ddisgyblion, nodweddion a'r cwricwlwm. Gwneir y prif gasgliad ym mis Ionawr, o ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Digonol**

Bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- mae perfformiad yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4 wedi gwella'n gyson yn y blynyddoedd diwethaf ac mae perfformiad mewn ysgolion uwchradd yn dda, yn enwedig ar gyfer y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg;
- yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Abertawe wedi bodloni holl feincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim;
- mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn dda;
- mae cyfraddau gwaharddiadau parhaol a thymor byr penodol wedi gwella ac yn well na chyfartaleddau Cymru;
- mae ymrwymiad yr awdurdod i ddatblygu gallu ysgolion i fodloni anghenion disgyblion ag anghenion dysgu penodol eu hunain, a gwaith y gwasanaeth i wireddu'r uchelgais hon, yn gryfderau arbennig;
- mae'r strategaeth Atal ac Ymyrryd yn Fuan, sy'n cynnwys cydweithio effeithiol rhwng ystod o wasanaethau addysg ac asiantaethau eraill, wedi bod yn llwyddiannus wrth wella cyrhaeddiad a phresenoldeb, a lleihau cyfraddau gwaharddiadau a throseddau ymhlith pobl ifanc;
- mae gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid strategaeth lwyddiannus iawn ac ystod o ddulliau sydd wedi lleihau canran y bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) yn sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf;
- mae 'Rhaglen Ansawdd mewn Addysg 2020', sy'n uchelgeisiol o ran moderneiddio ysgolion, yn cael ei hategu gan flaenoriaethau clir i leihau lleoedd dros ben a bodloni'r galw am addysg Gymraeg; ac
- mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar ystod briodol o wasanaethau cymorth ieuenctid.

Fodd bynnag:

- mae cyfraddau presenoldeb cynradd ymhell islaw'r cyfartaledd, gyda bron i hanner yr ysgolion yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim;
- mae gormod o ysgolion nad ydynt yn gwella'n ddigon cyflym pan nodir bod angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl arolygiad craidd ac mae gormod ohonynt mewn categorïau o bryder;
- caiff disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol eu hailintegreiddio yn ôl i ysgolion prif ffrwd ac nid yw'r ddarpariaeth yn yr uned cyfeirio disgyblion cyfnod allweddol 4 yn ddigon da; ac
- nid yw'r prosesau i sicrhau ansawdd gwaith swyddogion yn ddigon effeithiol i wneud yn siwr bod pob swyddog yn herio pob ysgol i wella yn gyson.

## Gallu i wella: Da

Bernir bod rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn dda oherwydd:

- mae arweinyddiaeth y cyngor yn gryf yn wleidyddol ac ar lefel strategol ac yn dangos ymrwymiad cadarn i wella gwasanaethau addysg yn Ninas a Sir Abertawe;
- mae gan yr arweinydd a'r prif weithredwr weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer darpariaeth addysg a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n cael ei deall yn dda gan uwch swyddogion, aelodau etholedig a rhanddeiliaid, ac eir i'r afael â'r weledigaeth yn uniongyrchol trwy gynlluniau strategol;
- mae newid wedi digwydd ar gyfymder sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac wedi arwain yn gyflym at ddull amlasiantaethol effeithiol i fynd i'r afael â thlodi a gwella cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd;
- mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig wedi dangos eu parodrwydd i weithredu'n gyflym a gwneud penderfyniadau anodd i wella darpariaeth a deilliannau;
- mae gan yr awdurdod ystod eang iawn o ddata, a ddefnyddir yn dda i dargedu ymyriadau ac arfarnu ei waith;
- mae mecanweithiau corfforaethol sefydledig i fonitro perfformiad, sy'n arwain at gamau penodol ac ymyriadau ar gyfer gwella;
- mae swyddogion yn arfarnu effaith mentrau penodol yn dda;
- mae gan Abertawe hanes sefydledig o weithio mewn partneriaeth i wella safonau a chyfleoedd ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd, gyda chynlluniau a strategaethau partneriaeth lefel uchel sy'n canolbwyntio'n glir ar roi blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar waith;
- mae'r awdurdod yn defnyddio adnoddau'n effeithiol trwy reolaeth ariannol ofalus a datblygu proses cynllunio ariannol tymor canolig, a thrwy wneud defnydd da o ddata;
- gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â mwyafrif yr argymhellion o arolygiadau blaenorol; ac
- mae gan yr awdurdod hanes da o wella gwasanaethau yn llwyddiannus lle nodir diffygion.

Fodd bynnag:

- ni chaiff prosesau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd eu cymhwyso'n ddigon cyson o fewn gwasanaethau addysg i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio ymhlith staff;
- yn aml, nid yw targedau addysg yn ddigon heriol; ac
- mae adolygiadau blynyddol o wasanaethau addysg yr awdurdod a'r adroddiad hunanarfarnu a baratowyd ar gyfer yr arolygiad yn rhoi dadansoddiad rhy gadarnhaol o waith yr awdurdod mewn rhai meysydd.

## Argymhellion

A1 Datblygu a rhoi strategaeth ar waith i wella lefelau presenoldeb mewn ysgolion cynradd

A2 Sicrhau ansawdd gwaith swyddogion i sicrhau cysondeb gwell yn lefel yr her y maent yn ei chynnig i ysgolion

A3 Gwella arfarniad swyddogion o ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion i wneud yn siwr bod ysgolion sy'n tanberfformio yn cael eu nodi a'u cefnogi'n gyflym

A4 Gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, yn enwedig i godi safonau cyflawniad a chynorthwyo ailintegreiddio yn ôl i ysgolion

A5 Gwella cysondeb arweinyddiaeth ar draws yr holl wasanaethau addysg ac ansawdd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant mewn gwasanaethau addysg.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Dinas a Sir Abertawe yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 50 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad.

Mae Estyn o'r farn nad oes angen gweithgarwch dilynol ar yr awdurdod.

Yn ystod yr holl arolygiadau craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol.

Mae pum math o weithgarwch dilynol, sef:

1. astudiaeth achos arfer dda;
2. monitro gan yr arolygydd cyswllt;
3. ymweliad monitro gan Estyn;
4. gwelliant sylweddol; a
5. mesurau arbennig.

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio yn sgil ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall o fewn awdurdod. Bydd yr holl arolygiadau dilynol yn cael eu bwydo i mewn i Galendr Rheoleiddio'r Awdurdod Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 2, cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 wedi gwella'n gyson yn y blynyddoedd diwethaf er nad yw perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen yn cymharu cystal â pherfformiad mewn awdurdodau eraill ledled Cymru.

Pan gaiff ysgolion yn Abertawe eu cymharu ag ysgolion tebyg ar sail canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn 2012 ychydig islaw'r cyfartaledd yn y Cyfnod Sylfaen a'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 2. Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, nid oes digon o ysgolion yn y chwarter uchaf. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn dda, gyda thros draean o ysgolion uwchradd Abertawe yn y chwarter uchaf a dwy o bob tair ysgol yn yr hanner uchaf.

Mae perfformiad yn dda yng nghyfnod allweddol 4 hefyd, yn enwedig ar gyfer y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg. Mewn perthynas â'r dangosyddion hyn, mae tua hanner yr ysgolion yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg, ac mae dros dri chwarter ohonynt uwchlaw'r cyfartaledd. Mewn perthynas â phob un o'r pum dangosydd, mae dros 25% o ysgolion yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg a llai na 25% yn y chwarter gwaelod.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod meincnodau ar gyfer perfformiad ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2011 a 2012, llwyddodd Abertawe i fodloni pob un o'r tri meincnod disgwyliedig hyn. Mae hyn yn welliant ar flynyddoedd blaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn wedi amrywio o amgylch y cyfartaledd ar gyfer Cymru am y blynyddoedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2012, mae'r bwlch yn llai na chyfartaledd Cymru mewn perthynas â phob un o'r pum prif ddangosydd.

Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn 2012 yn llai na'r cyfartaledd ledled Cymru yng nghyfnod allweddol 2 ac mewn perthynas â phob un o'r pum prif ddangosydd yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r bwlch yn fwy na'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3.

Mae perfformiad disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn gyffredinol, er gwaethaf y lefelau cymharol uchel o amddifadedd yn yr awdurdod. Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol ac o grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau unigol.

Mae oedrannau darllen ar ddechrau cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 wedi gwella'n gyson yn ddiweddar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar raglenni cymorth i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd da. Nid oes data gan yr

awdurdod i wybod p'un a yw'r cynnydd hwn yn cael ei gynnal ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith yn dda iawn, a dyma yw'r gorau yng Nghymru yn y rhan fwyaf o gyfnodau allweddol yng Nghymru. Mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yn fwy amrywiol ac ni chaiff digon o ddysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cwrs llawn mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Yn 2012, mae canran y dysgwyr sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae pobl ifanc yn ennill ystod eang o gymwysterau mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai ffurfiol, er bod cyrhaeddiad mewn cymwysterau a gydnabyddir yn lleol yn llawer gwell nag ydyw mewn cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.

**Lles: Digonol**

At ei gilydd, mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn dda mewn ystod o weithgareddau sy'n eu helpu i ddatblygu ffyrdd iach a diogel o fyw. Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn dda mewn ystod o weithgareddau corfforol. Mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau penodol fel y rhaglenni Pobl Ifanc Egnïol, gan gynnwys Campau'r Ddraig a gweithgareddau 5x60, yn cymharu'n dda â chyfartaleddau Cymru.

Pan gaiff ysgolion eu cymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae presenoldeb uwchradd yn dda, gyda thua 40% o ysgolion yn y chwarter uchaf a 60% yn yr hanner uchaf. Fodd bynnag, mae presenoldeb cynradd ymhell islaw'r cyfartaledd, gyda bron i hanner yr ysgolion yn y chwarter gwaelod a thua phedair o bob pum ysgol yn yr hanner is. Nid oes digon o ysgolion yn y chwarter uchaf.

Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol byrrach yn well na chyfartaledd Cymru, er nad yw cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy cystal â chyfartaledd Cymru. Mae nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd ar gyfer yr holl waharddiadau cyfnod penodol ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae canran y dysgwyr sy'n aros mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn yn 16 oed yn dda ac wedi gwella ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Mae canran y bobl ifanc nad ydynt yn cyfranogi mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn isel. Mae wedi gwella'n sylweddol ac wedi haneru dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn cymharu'n well ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru na'r hyn y gellid ei ddisgwyl o ystyried lefelau amddifadedd yn Abertawe.

Mae'r cyngor yn rhoi blaenoriaeth i gasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc, ac o ganlyniad, maent yn cyfrannu'n dda at ddatblygu polisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Maent yn cyfrannu'n dda at gynghorau ysgol ac at ymgynghoriadau ehangach fel y 'Sgwrs Fawr' ac 'Arolwg Gwych' ('Super Survey'), y mae pobl ifanc yn cynnig eu safbwyntiau am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau trwyddynt.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Digonol**

Mae'r awdurdod yn gwrando'n dda ar ei ysgolion ac yn darparu lefelau da o gymorth ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw her swyddogion i ysgolion yn ddigon cyson nac yn ddigon trylwyr i wneud yn siwr bod ysgolion sy'n tanberfformio yn gwella'n ddigon cyflym.

Mae'r awdurdod yn defnyddio'r fframwaith consortiwm rhanbarthol i ddosbarthu ysgolion yn ôl risg ac i gynllunio ymyriadau priodol. Mae swyddogion ac ysgolion yn defnyddio ystod dda o ddadansoddiadau data i gyfrannu at y categoreiddio hwn a nodi grwpiau o ddisgyblion y mae angen cymorth a chefnogaeth benodol arnynt. Mae penaethiaid a chyrff llywodraethol yn deall yn dda ym mha gategori y mae eu hysgol ynddi, er eu bod yn llai clir ynglŷn â'r modd y mae hyn yn cysylltu â'r cymorth a gânt. Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, caiff yr ysgol ei chategoreiddio yn rhy hael, ac nid yw'n herio'r ysgol yn ddigonol i wella.

Mae swyddogion wedi comisiynu ystod o adolygiadau a chymorth ar gyfer ysgolion penodol sy'n achosi pryder. Mae'r adolygiadau hyn, a gynhelir ar y cyd gan swyddogion yr awdurdod lleol ac arweinwyr system y consortiwm rhanbarthol, yn effeithiol ac yn cynnwys ffocws clir ar ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw swyddogion yn arfarnu pob agwedd ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn rheolaidd ym mhob ysgol. Mewn nifer fach o ysgolion, nid yw swyddogion wedi bod yn ymwybodol o'r materion a arweiniodd at roi'r ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol Estyn o ganlyniad i arolygiad.

Mae ansawdd cofnodion ysgrifenedig swyddogion o ymweliadau ag ysgolion yn amrywio gormod. Mae'r cofnodion hyn yn aml yn ddisgrifiadol ac nid yw llawer ohonynt yn nodi camau dilynol ar gyfer ysgolion neu raddfeydd amser ar gyfer gweithredu yn glir. Nid yw llawer ohonynt yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon clir fel bod gan ysgolion ddealltwriaeth gywir o'r hyn y mae angen iddynt ganolbwyntio arno er mwyn gwella.

Nid yw prosesau i sicrhau ansawdd gwaith swyddogion a'r her y maent yn ei chynnig i ysgolion yn ddigon effeithiol i wneud yn siwr bod yr holl swyddogion yn cyflawni'r rôl hon yn drylwyr ac yn gyson. O ganlyniad, mae gormod o ysgolion nad ydynt yn gwella'n ddigon cyflym.

Er 2010, nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ar dair ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd. Rhoddwyd un uned cyfeirio disgyblion yn y categori mesurau arbennig. Nid yw cyfran uchel o ysgolion y nodwyd bod angen iddynt gael eu monitro gan Estyn ar ôl eu harolygiadau craidd yn gwneud cynnydd digonol, a bernir yn ddiweddarach bod angen eu gwella'n sylweddol ar ôl ymweliadau monitro. Nid yw'r awdurdod wedi defnyddio ei ystod lawn o bwerau i wella ysgolion sy'n tanberfformio. Mae'r awdurdod wedi cyflwyno llythyrau rhybudd i nifer fach o ysgolion er bod Estyn eisoes wedi rhoi un o'r ysgolion hyn yn y categori mesurau arbennig.

Mae gan yr awdurdod ystod dda o fentrau llythrennedd a rhifedd i wella medrau dysgwyr a chodi safonau. Yn benodol, mae dull yr awdurdod cyfan o wella medrau

darllen dysgwyr wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae swyddogion yn arfarnu effaith mentrau penodol yn dda ac yn gwneud addasiadau synhwyrol i wella eu harweiniad i ysgolion ymhellach. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn olrhain cynnydd dysgwyr sydd wedi cael cymorth ychwanegol trwy raglenni ymyrraeth yn ddigon da i sicrhau eu bod yn cynnal eu cynnydd hyd at ddiwedd y cyfnod allweddol.

Mewn partneriaeth â'r brifysgol leol, mae'r awdurdod yn darparu cyfleoedd datblygiadol da ar gyfer darpar arweinwyr ysgol. Mae'n defnyddio mentoriaid ac arweinwyr system yn dda i gefnogi penaethiaid newydd. Mae swyddogion yn darparu cyfleoedd hyfforddi da ar gyfer llywodraethwyr.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Da**

Mae'r awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithiol i sicrhau bod darpariaeth ar gyfer disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn gweddu i'w hanghenion. Mae cydweithio da rhwng gwasanaethau addysg ac iechyd yn sicrhau bod anghenion plant cyn-ysgol yn cael eu nodi o oedran cynnar, a bod cymorth ac adnoddau priodol yn cael eu darparu ar gyfer y plant hyn.

Fel rhan o'i ddull cynhwysol, un o brif flaenoriaethau strategol yr awdurdod yw datblygu gallu ysgolion i fodloni anghenion y ganran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd. Mae ei ymrwymiad i'r flaenoriaeth hon a gwaith y gwasanaeth i gyflawni'r uchelgais hon yn gryfder arbennig. Yn unol â'r strategaeth hon, mae'r awdurdod wedi dirprwyo cyllid ar gyfer disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth yn ddiweddar. Mae'r dull hwn wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion wrth bennu beth yw'r ffordd orau y gallant fodloni anghenion y disgyblion hyn. Mae'r awdurdod yn monitro'r defnydd priodol o'r cyllid hwn yn gadarn.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol i ddarparu rhaglen eang o hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer cydlynwyr anghenion addysgol arbennig, athrawon prif ffrwd a chynorthwywyr addysgu. Mae rheolwyr yn cynllunio ac yn trefnu'r hyfforddiant hwn yn dda i sicrhau bod gan bob ysgol dîm o staff sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n effeithiol iawn gyda chydlynwyr anghenion addysgol arbennig i hyrwyddo arfer dda ar draws yr holl ysgolion. Mae'r cydlynwyr hyn yn darparu cymorth a hyfforddiant arbenigol, ac maent yn cymryd rhan mewn ystod o weithgorau i ddatblygu strategaethau addas a chreu adnoddau defnyddiol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r awdurdod yn defnyddio data yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn erbyn eu targedau unigol. Pan nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd disgwyliedig, mae swyddogion yn darparu cymorth a her wedi'u targedu'n addas ar gyfer ysgolion.

Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth ac arweiniad effeithiol i rieni a gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth glir am y gwasanaethau sydd ar gael i'w plant, yn ogystal â

chyngor defnyddiol gan y swyddog cyswllt cartref mewn perthynas â’r broses asesu statudol.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Digonol**

Mae strategaeth Atal ac Ymyrryd yn Fuan yr awdurdod lleol yn hyrwyddo cynhwysiant a lles yn llwyddiannus trwy weithio’n effeithiol mewn partneriaeth â’r heddlu, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd ac asiantaethau eraill. Mae plant a phobl ifanc mewn meysydd sydd â’r amddifadedd mwyaf yn elwa ar y cymorth targedig hwn.

Defnyddir data yn dda i greu proffiliau unigol manwl ar gyfer plant a phobl ifanc trwy ddefnyddio’r proffil asesu breguster yn effeithiol. Mae’r proffiliau hyn yn nodi angen ac yn pennu’r lefelau ymyrraeth angenrheidiol ar draws yr holl wasanaethau. Mae ysgolion, gwasanaethau addysg, y Gwasanaeth i Bobl Ifanc a’r Gwasanaeth i Blant a Theuluoedd yn defnyddio’r wybodaeth hon yn dda i wneud yn siwr bod y dysgwyr hynny y mae angen cymorth arnynt yn ei gael.

Mae’r strategaeth Atal ac Ymyrryd yn Fuan yn defnyddio ystod o fentrau cydlynus i fodloni anghenion y rhai a nodwyd gan y proffil asesu breguster. Ychwanegir at y gwasanaethau cyffredinol a gynigir gan ysgolion a’r awdurdod trwy waith atal cynnar defnyddiol wedi’i dargedu fel y Gwasanaeth Rhianta, Dechrau’n Deg, y Llofnod Dysgu Teuluol, Arfer Adferol, Tîm o Amgylch y Teulu a Hyrwyddo Cynhwysiant.

O ganlyniad, mae’r awdurdod wedi gwella cydlynu ymatebion amlasiantaethol ar gyfer teuluoedd y mae angen cymorth dwys arnynt i osgoi eithrio cymdeithasol. Er enghraifft, datblygwyd y prosiect Hyrwyddo Cynhwysiant yn ddiweddar i adeiladu ar lwyddiant gwaith blaenorol i nodi’r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn gynnar. Cyflawnir hyn trwy gydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a gwasanaethau troseddau ieuenctid. Mewn cyfnod byr, bu gostyngiad yn barod mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a adroddwyd mewn nifer fach o ardaloedd yn sgil y prosiect hwn.

Mae nodi a thargedu mentrau’n gywir trwy wneud defnydd cyson o ddata gan yr holl wasanaethau ac asiantaethau a darparu mentrau cydlynus a chysylltiedig ar draws addysg, gwasanaethau plant ac asiantaethau eraill, eisoes wedi cael effaith. Mae’r awdurdod wedi lleihau gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol byrrach, mae wedi gwella presenoldeb uwchradd, ac wedi lleihau cyfran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt yn cyfranogi mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn sylweddol. Mae hefyd wedi lleihau cyfraddau troseddau ieuenctid ac wedi gwella perfformiad grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys plant sy’n cael gofal.

Mae gan yr awdurdod ystod o strategaethau cymorth ymddygiad, sy’n helpu i gadw plant a phobl ifanc mewn dysgu. Mae disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn cael cynigion cwricwlwm priodol, ac mae’r awdurdod yn defnyddio proses symudiadau rheoledig yn llwyddiannus i helpu disgyblion i barhau i ymgysylltu â’u haddysg. Fodd bynnag, mae’r broses symudiadau rheoledig yn anffurfiol, a hyd nes y cytunir ar y polisi drafft presennol a’i roi ar waith, ni all swyddogion sicrhau’r lleoedd ysgol newydd ar gyfer pob disgybl.

Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn gwella trwy fentrau fel Arfer Adferol. Fodd bynnag, nid yw strategaethau i wella presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi bod yn ddigon effeithiol. Nid yw'r cymorth gan y gwasanaeth lles addysg a'r cydweithio â swyddogion gwella ysgolion yn ddigon cyson i wneud yn siwr bod presenoldeb yn gwella yn gyffredinol. Nid yw targedau i wella presenoldeb yn ddigon heriol bob amser.

Mae gan yr awdurdod lleol ystod dda o ddarpariaeth ar gyfer y rhai sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Mae disgyblion yn ailintegreiddio'n llwyddiannus yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, ond nid yw'r ailintegreiddio yng nghyfnod allweddol 3 yn ddigon da. Mae'r deilliannau yng nghyfnod allweddol 4, ar gyfer y rhai a gefnogir gan ystod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r targedau i wella presenoldeb yn ddigon heriol bob amser.

Gall pobl ifanc fanteisio ar ystod dda o wasanaethau cymorth, arweiniad a chwnsela proffesiynol trwy eu hysgolion, yn y gymuned leol a thrwy gymorth dros y ffôn a'r rhyngrwyd. Mae effaith y gwasanaeth cwnsela ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Ailstrwythurwyd y Gwasanaeth i Bobl Ifanc yn Abertawe yn 2011-2012, a rhoddwyd ffocws newydd iddo ar yr un pryd. Mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd gwell o wybodaeth am reoli erbyn hyn i fonitro a thargedu ei waith. Gwnaed cynnydd sylweddol yng ngwaith y gwasanaeth ers yr ailstrwythuro, ac mae ganddo rôl fwy rhagweithiol mewn arweinyddiaeth leol gyda gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach erbyn hyn, ac mae'n gwella'r modd y mae'n cydnabod cyflawniadau pobl ifanc.

Adolygwyd trefniadau diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc yn Abertawe yn ddiweddar. O ganlyniad, nid yw'r trefniadau adrodd a monitro ar gyfer diogelu mewn gwasanaethau addysg yn destun pryder arwyddocaol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod darparwyr, gan gynnwys ysgolion, yn cynnal y gwiriadau recriwtio diogel gofynnol ar wirfoddolwyr.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Da**

Mae gan yr awdurdod 'Raglen Ansawdd mewn Addysg 2020', sy'n uchelgeisiol ac yn cael ei hategu gan flaenoriaethau clir. Trwy'r rhaglen hon, mae wedi cau, uno ac ailfodelu ysgolion ar draws pob sector i wella darpariaeth a bodloni anghenion addysgol disgyblion. Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig wedi bod yn fodlon gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni'r amcan hwn. O ganlyniad, er 2009, mae'r awdurdod wedi lleihau nifer gyffredinol y lleoedd dros ben yn sylweddol nes eu bod ymhell islaw cyfartaledd Cymru, yn ogystal â darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol i fodloni'r galw. Mae ffigurau arfaethedig yn dangos y bydd capasiti o ran nifer y lleoedd dros ben yn bodloni targedau Llywodraeth Cymru mewn ysgolion uwchradd yn 2013 ac mewn ysgolion cynradd erbyn 2018.

Mae'r cyngor wedi cymeradwyo cynlluniau ac wedi ymrwymo i ariannu cam nesaf y rhaglen o 2014. Ar hyn o bryd, nid yw cyllid ar gyfer y cam hwn wedi'i sicrhau'n llawn.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer rhagweld y galw am leoedd mewn ysgolion. Mae hyn wedi cefnogi cynllunio effeithiol i wella'r cyfle i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae trefniadau'r awdurdod ar gyfer asesu capasiti, addasrwydd a digonolrwydd ei adeiladau ysgol yn dda. Mae gweithio integredig ar draws yr awdurdod a gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar ddatblygu prosiectau moderneiddio ysgolion wedi'i sefydlu'n dda. Caiff y 'Rhaglen Ansawdd mewn Addysg 2020' ei rheoli'n effeithiol ar y cyfan.

Mae'r awdurdod yn rheoli derbyniadau'n dda. Nifer fach iawn yn unig o ddewisiadau rhieni y mae'n methu eu bodloni.

Mae ystod briodol o ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a chwarae, sy'n bodloni anghenion plant a'u teuluoedd. Mae'r awdurdod yn monitro digonolrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth hon yn effeithiol.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar ystod briodol o wasanaethau cymorth ieuenctid. Mae wedi gwneud cynnydd da o ran diweddaru'r modd y mae'n cynllunio ac archwilio darpariaeth gwasanaeth.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinyddiaeth y cyngor yn gryf yn wleidyddol ac ar lefel strategol, ac mae'n dangos ymrwymiad cadarn i wella gwasanaethau addysg yn Ninas a Sir Abertawe. Mae gan arweinydd y cyngor a'r prif weithredwr weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer darpariaeth addysg a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Caiff y weledigaeth hon a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella eu deall yn dda gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig, ac fe'u rhannwyd â phob un o'r rhanddeiliaid. Eir i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yn uniongyrchol trwy gynlluniau strategol a chânt eu cefnogi gan ailstrwythuro rheolaeth gorfforaethol yn y cyngor yn ddiweddar.

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gwnaed gwelliannau i wasanaethau addysg ar gyflymder sylweddol. Fe wnaeth y weinyddiaeth newydd, ar y cyd â'r prif weithredwr, symud yn gyflym i roi tlodi a diwethdra, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, ar frig eu hagenda. Mae'r awdurdod yn seilio'i strategaethau i wella perfformiad ysgolion yng nghyd-destun y teulu a'r gymuned y mae disgyblion yn byw ynddi. Mae hyn wedi arwain yn gyflym at ddull amlasiantaethol effeithiol o fynd i'r afael â thlodi a gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae datblygu'r Gwasanaeth Atal ac Ymyrryd yn Fuan eisoes wedi arwain at welliannau mewn presenoldeb, cyfraddau gwahardd a chyrhaeddiad. Cydnabu uwch swyddogion fod angen targedu adnoddau'n well ac maent eisoes wedi penodi pennaeth tlodi ac atal i ysgogi hyn. Mae'r awdurdod wedi gwneud defnydd priodol o'i brofiad o wella'i Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn llwyddiannus i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn deall yn dda beth yw'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg. Maent yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â

thanberfformio mewn ysgolion ac mewn gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r arweinydd a'r prif weithredwr wedi ymgysylltu'n dda â phenaethiaid ac wedi cynnal rhaglen o ymweliadau ag ysgolion, ac wedi gweithredu'n gyflym i ddechrau mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder i ysgolion, fel delio â staff sy'n tanberfformio.

Ni chaiff yr arweinyddiaeth gref hon ei hefelychu yn gyson ar bob lefel. Nid yw prosesau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd yn cael eu cymhwyso'n ddigon cyson o fewn yr holl wasanaethau addysg i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio ymhlith staff. Nid oes gan bob swyddog ddyheadau digon uchel ar gyfer perfformiad ysgolion. Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn cydnabod bod angen gwneud prosesau atebolrwydd yn fwy cadarn a chynyddu lefel yr her i swyddogion ac ysgolion er mwyn codi safonau. Maent eisoes wedi dangos eu parodrwydd i wneud penderfyniadau anodd, er enghraifft, ynghylch cau ysgolion, a staffio a materion ariannol. Mae'r prif weithredwr eisoes wedi sefydlu bwrdd gwella i fynd i'r afael â diffygion mewn gwasanaethau addysg ac adrodd wrth y Bwrdd Arweinyddiaeth Addysg sy'n cael ei gadeirio gan yr arweinydd.

Caiff cynllun busnes pum mlynedd y gyfarwyddiaeth addysg ei ategu gan gynlluniau gweithredu gwasanaethau blynyddol. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r cynlluniau gweithredu yn cynnwys digon o fanylion i sicrhau bod swyddogion yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i ysgogi gwelliannau ac er mwyn gallu monitro gwaith y gyfarwyddiaeth yn effeithiol.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod wedi cryfhau trefniadau craffu. Yn dilyn dau ailstrwythuriad yn olynol yn 2012, mae un pwyllgor rhaglen graffu erbyn hyn, sy'n cael ei gefnogi gan baneli ymchwilio a gweithgorau. Mae'r trefniadau hyn wedi cynyddu nifer yr aelodau etholedig sy'n ymgymryd â chraffu ac maent wedi galluogi aelodau i edrych ar themâu ar draws ystod o wasanaethau sy'n gweddu i ddiddordebau penodol. Mae'r cyngor wedi sefydlu pwyllgor perfformio i fynd i'r afael â safonau mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw aelodau'n cael digon o ddata ar lefel ysgol unigol i'w galluogi i fynd ati'n gywir i nodi'r ysgolion hynny sy'n tanberfformio. Nid yw'r pwyllgor perfformio wedi canolbwyntio'n ddigonol ar herio ysgolion sy'n tanberfformio yn y misoedd diwethaf.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn datblygu blaenoriaethau ar y cyd i wneud yn siwr bod partneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd i helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae'n canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu trefniadau craffu effeithiol, gan sicrhau atebolrwydd partneriaid ar gyfer cyflawni blaenoriaethau a nodwyd a sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad ac adnoddau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r awdurdod yn gwneud defnydd da o ystod eang iawn o ddata a gwybodaeth ansoddol arall i dargedu ymyriadau ac arfarnu effaith ei waith. Mae trefniadau da ar gyfer ymgynghori ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys Panel Dinasyddion Lleisiau Abertawe. Mae'r awdurdod wedi cryfhau ei ddulliau o wrando ar safbwyntiau plant a phobl ifanc yn ddiweddar. Mae arolygon canfyddiadau blynyddol, a chyfarfodydd rheolaidd i benaethiaid a chyfarfodydd partneriaeth penodol yn effeithiol o ran helpu i nodi blaenoriaethau.

Mae mecanweithiau corfforaethol sefydledig yn bodoli i fonitro perfformiad. Defnyddir cyfarfodydd materion ysgolion rheolaidd, sy'n canolbwyntio'n benodol ar ysgolion y nodwyd eu bod yn 'risg uchel', i lywio'r broses Perfformiad Addysg a Monitro Ariannol. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae swyddogion yn pennu camau ac ymyriadau penodol ac yn nodi meysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw trwy gydweithio â phartneriaid.

Mae adroddiadau cynnydd chwarterol a blynyddol yn cynnig ffyrdd priodol o olrhain effaith gwaith yr awdurdod mewn meysydd y nodwyd eu bod yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw targedau addysg yn ddigon heriol, ac o ganlyniad, nid yw'r adroddiadau yn arfarnu perfformiad yn drylwyr. Mae'r awdurdod yn cryfhau ei drefniadau i greu adolygiadau o'i waith sydd wedi'u seilio'n fwy ar ddeilliannau. Ar hyn o bryd, mae adolygiadau o gynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau yn canolbwyntio'n bennaf ar ddisgrifio camau a gymerwyd yn hytrach na dadansoddi effaith y gwaith hwn ar gyflawni amcanion.

Mae swyddogion yn arfarnu effaith mentrau penodol yn dda. Fodd bynnag, mae adolygiadau blynyddol o'r gwasanaeth addysg a'r adroddiad hunanarfarnu a baratowyd ar gyfer yr arolygiad yn rhoi dadansoddiad rhy gadarnhaol ond nid yw'n ddigon hunanfeirniadol o waith yr awdurdod mewn rhai meysydd. Mae'r adroddiad yn nodi meysydd priodol i'w gwella yn gywir ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion ansawdd. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau busnes cyfarwyddiaethau a gwasanaethau yn cynnwys croesgyfeiriadau amlwg at y meysydd a nodwyd ar gyfer gwella yn yr adroddiad hunanarfarnu.

Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â mwyafrif yr argymhellion o arolygiadau blaenorol. Mae swyddogion wedi cymryd camau effeithiol i leihau nifer y lleoedd dros ben mewn ysgolion a gwella cyflwr adeiladau ysgol. Mae trefniadau addas ar gyfer rheoli perfformiad gwaith partneriaeth a gweithgareddau sy'n cael eu cydlynu gan yr Uned Strategaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Bartneriaeth wedi cyflwyno fframwaith sicrhau ansawdd priodol ar gyfer ei gweithgareddau yn ddiweddar.

Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi sicrhau ansawdd gwaith swyddogion mewn modd addas a chadarn eto nac wedi sicrhau her a chymorth cyson i bob ysgol. Mae gan y trefniadau craffu a throsolwg a fabwysiadwyd yn ddiweddar y potensial i wella lefel yr her i ansawdd gwasanaethau a chefnogi datblygiad polisi. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi cael digon o effaith ar wella'r ddarpariaeth a gwella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae hanes sefydledig o weithio mewn partneriaeth yn Abertawe. Mae uwch arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi cydweithio'n dda i wella safonau a chyfleoedd ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd. Maent wedi ymrwymo'n gryf i waith y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Yn yr awdurdod, mae aelodau etholedig yn arwain yr ymrwymiad hwn yn dda. Maent yn gosod cyfeiriad clir ac yn cychwyn polisïau penodol i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hyn wedi cyflymu'r newid ac wedi llywio camau blaenoriaeth. Yn sgil sefydlu'r Gwasanaeth Atal ac Ymyrryd yn Fuan, bu gwelliant o

ran cydlynu ac effeithiolrwydd y gwaith partneriaeth, yn enwedig gyda'r Gwasanaeth diwygiedig ar gyfer Pobl Ifanc a'r gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae ymrwymiad yr awdurdod i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn fframwaith polisi'r awdurdod, a gynlluniwyd i gydnabod hawliau plant a phobl ifanc ar draws holl swyddogaethau'r awdurdod, yn eithriadol o dda.

Mae strategaethau a chynlluniau partneriaeth lefel uchel yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae trawsgynrychiolaeth dda o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn helpu i sicrhau bod blaenoriaethau presennol yn cael eu cynllunio'n briodol yn unol â blaenoriaethau'r cynllun integredig sengl 'Abertawe'n Un' ('One Swansea'). Mae'r Bartneriaeth yn gwneud defnydd da o fethodoleg atebolrwydd yn seiliedig ar ddeilliannau i gynllunio a monitro'r ddarpariaeth. Mae'r dull hwn yn dangos yn glir beth yw effaith gweithgareddau a mentrau ar feysydd deilliannau allweddol.

Ar lefelau gwasanaeth a thîm, nid yw nodau ac amcanion blaenoriaethol o gynlluniau strategol bob amser yn cael eu troi yn gynlluniau gweithredu effeithiol gyda mesurau perfformiad penodol yn dda. Ni ddefnyddir data yn ddigon da i ddangos effaith lawn dysgu nad yw'n ffurfiol a dysgu anffurfiol a gwasanaethau cymorth ieuenctid ar ddysgwyr, neu i gynllunio ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae llwyddiant y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a blaenoriaeth y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i leihau niferoedd y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt yn cyfranogi mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn arwyddocaol. Mae cydweithio rhagorol a threfniadau cynllunio manwl a ffocysedig yn sicrhau bod y model yn effeithiol iawn. Mae'r llwyddiant hwn wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y Bwrdd Gwasanaethau Lleol o ran blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc rhwng 18 a 24 oed nad ydynt yn ymgymryd â chyfloeoedd addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn seiliedig ar yr un model.

Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phum awdurdod arall yn ei gonsortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, sy'n gweithredu mewn tair canolfan leol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi cydweithio'n ddigon da yn ei ganolfan ei hun i wella ysgolion yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r awdurdod yn defnyddio adnoddau yn effeithiol trwy reolaeth ariannol ofalus, proses cynllunio ariannol tymor canolig sy'n datblygu a thrwy wneud defnydd da o ddata. Mae wedi defnyddio'i adnoddau ei hun yn dda i flaenoriaethu'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig a'r meysydd sy'n benodol i ddisgyblion o fewn y gyllideb annirprwyedig. Gall amlygu gwelliannau penodol mewn deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr o ganlyniad i'r dull hwn. Cyflawnwyd effeithlonrwydd ansoddol ac arwyddocaol trwy gaffael gwell, adolygu gwasanaethau a chydweithio â phobl eraill. Fodd bynnag, nid yw'r consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau ar hyn o bryd.

Mae'r awdurdod wedi cynyddu ei gyfradd cyllideb ysgolion dirprwyedig yn sylweddol i'r pedwerydd uchaf yng Nghymru, yn rhannol trwy ddirprwyo'i gyllideb ar gyfer anghenion difrifol a chymhleth. Trwy adolygu'r holl agweddau ar ei gyllideb

annirprwyedig yn drylwyr, mae'r awdurdod yn gweithio'n bwrpasol i fodloni neu ragori ar y gyfradd ddisgwyliedig o 85%.

Er bod tuedd gynyddol yn lefel cronfeydd ariannol wrth gefn ysgolion, caiff y rhain eu monitro'n ofalus gan yr awdurdod a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion. Caiff ysgolion eu herio'n briodol i leihau diffygion a lleoedd dros ben. Mae gweddillion yn uwch mewn ysgolion cynradd nag ydynt mewn ysgolion uwchradd ac mae gweddillion nifer fach o ysgolion cynradd yn rhy uchel. Mae'r awdurdod yn barod i ddefnyddio'i bwerau i adfer cyllid os na chaiff cronfeydd wrth gefn eu defnyddio'n ddigon effeithiol.

Mae'r awdurdod yn cynnal arolwg boddhad blynyddol ar gytundebau lefel gwasanaeth sy'n rhoi adborth defnyddiol ar ddigonolrwydd, addasrwydd a pherfformiad y gwasanaethau cymorth y mae'n eu cyflenwi i ysgolion. Defnyddir gwybodaeth o arolygon o'r fath yn dda i wella gwasanaethau. Mae'r awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r Fforwm Cyllideb Ysgolion i gynnal adolygiad treigl o'r holl gytundebau lefel gwasanaeth.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i foderneiddio a gwella cyflwr ac amgylchedd dysgu ffisegol ei ysgolion. Mae eisoes wedi ymrwymo cyllid sylweddol i gam cyntaf ei 'Raglen Ansawdd mewn Addysg 2020' ac mae ganddo strategaeth gytûn i godi'r cyllid cyfatebol gofynnol o £31.3 miliwn. Mae'r hinsawdd economaidd ansicr yn golygu bod y cyngor yn wynebu heriau a risgiau sylweddol i ariannu'r rhaglen gyfan ar gyfer cwblhau. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn glir ynglŷn â'i opsiynau cyllid presennol a'r dewisiadau y bydd yn rhaid iddo eu gwneud i gyflwyno'r rhaglen.

O ystyried y lefelau gwariant, y modd y defnyddir adnoddau a'r deilliannau a gyflawnir yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth addysg yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| John F Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Mererid Stone | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake | Arolygydd Tîm |
| Liz Miles | Arolygydd Tîm |
| Caroline Rees | Arolygydd Tîm |
| Jane Taylor | Arolygydd Tîm |
| Louise Fleet | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Paula Ham | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sandra Aspinall | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robin Brown | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu 7.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16**

**Dangosydd pwnc craidd** – fel uchod.

**Cymhwyster Lefel 1** – cyfwerth â TGAU gradd D i G.

**Y trothwy Lefel 1** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.

**Cymhwyster Lefel 2** – cyfwerth â TGAU gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 2** - rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.

**Y trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster Lefel 3** – cyfwerth â Safon Uwch gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 3** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol - er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm nifer y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu gan nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.